

Tai i bobl leol:

Mae datblygiadau tai newydd yn y pentref yn ystod y 10 mlynedd diwethaf wedi bod yn llwyddiant ac yn sicr mae wedi cynyddu'r boblogaeth o deuluoedd ifanc o fewn y pentref gan gael effaith positif ar y niferoedd yn yr ysgol. Nod y prosiect yw cefnogi datblygiadau o'r fath.

Lleihau tloidi tanwydd:

Mae mynegai amddifadedd Cymru yn dangos fod Llanaelhaearn yn rhif 29 gwaethaf o holl gymunedau Cymru yng nghyswllt tloidi tanwydd. Mae'r Antur yn awyddus i leihau'r broblem trwy daliadau uniongyrchol i bob tŷ yn y pentref a mesurau megis insiweleiddio a fydd yn lleihau costau cynhesu ein tai.


Projectau presennol:

Mae'n her ariannol barhaus i gynnal y projectau a'r mudiadau sydd yn y pentref ar hyn o bryd, fel y Ganolfan, y Cae Chwarae, yr Eglwys, Cylch Ti a Fi, Eisteddfod Aelhaearn a mwy. Byddai'r project hwn yn gallu cynnig help i redeg y prosiectau gwerthfawr hyn o ddydd i ddydd.

Diwrnod agored i drigolion Llanaelhaearn:

Dewch yn llu i'r diwrnod agored yng Nghanolfan y Babell rhwng 10 y.b a 3 y.p ddydd Sadwrn 26/10/2013 a byddwch yn rhan o'r datblygiadau cyffrous yma yn eich pentref chi.

ANTUR AELHAearn



Cynllun Datblygu Llanaelhaearn

2014 i 2024:

Tua'r Hanner Cant.

Y tu mewn, mwy o wybodaeth am:

Project Antur Gwynt Aelhaearn— oddeutu £100,000 i £200,000 y flwyddyn i'r pentref fydd yn cael ei wario ar brosiectau fel:

- Arian blynyddol i bob tŷ ar gyfer biliau tanwydd
- Cyfraniad blynyddol i Gyngor Cymuned Llanaelhaearn
- Creu Meithrinfa a Swyddfeydd
- Ystafell at ddefnydd yr Ysgol
- Siop a thai i bobl leol
- Canolfan Treftadaeth
- Gwella cysylltiad band eang
- Helpu projectau presennol (e.e. Canolfan y Babell)

Mae dyfodol mwyafrif y projectau hyn yn ddibynnol ar ddatblygu Antur Gwynt Aelhaearn

Mae'r Antur wedi bod yn gweithio ar strategaeth yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2012. Gyrrwyd holiadur i bob cartref yn y pentref ac fe gynhaliwyd diwrnod yn y Ganolfan lle'r oedd cyfle i bawb rannu eu syniadau.

Mae datblygu'r strategaeth yma yn ei gyfanrwydd yn ddibynnol ar ddatblygu Antur Gwynt Aelhaearn.

Project Antur Gwynt Aelhaearn:

Mae hwn yn ei hanfod yn brosiect ynni gwynt cymunedol sy'n cael ei arwain gan yr Antur. Mae'r mast mesur gwynt ar y foel ers bron i flwyddyn bellach ac mae'r adroddiadau yn dangos fod adnodd arbennig o dda ar y safle. O ganlyniad fe amcangyfrifir y gallai tyrbin 500kw gynhyrchu elw i'r pentref o oddeutu **£100,000 y flwyddyn am y 10 mlynedd cyntaf ac yn codi i dros £200,000 y flwyddyn am yr ail ddegawd**, ar ôl gorffen talu am y tyrbin.

- Bwriedir rhoi 15% o'r elw uchod yn uniongyrchol ar ffurf taliad blynyddol **i bob tŷ yn y pentref.**
- Byddai 5% yn cael ei rannu fel rhodd i Gyngor Cymuned Llanaelhaearn.
- Ymhlith rhai o'r pethau eraill fyddai'n elwa mae:

Meithrinfa:

Dyma oedd y syniad mwyaf poblogaidd a ddaeth o'r ymgynghoriad. Mae'r Antur wedi cwblhau cynllun busnes ar gyfer y feithrinfa a gellir ei weld yn arddangosfa'r diwrnod agored.

Swyddfeydd:

Byddai swyddfeydd newydd a modern yn adeiladau'r Antur yn creu cyfleoedd busnes a chyflogaeth newydd yn y pentref, a fyddai hefyd yn cefnogi busnesau lleol megis y becws a'r caffi.

Canolfan Treftadaeth:

Byddai datblygu canolfan dreftadaeth yn gysylltiedig â Thre'r Ceiri ac ati yn creu cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol yn ogystal â hybu ein diwylliant a'n hanes. Mae Cymdeithas Archeoleg Gwynedd a CADW wedi datgan eu cefnogaeth i ddatblygiad o'r math yma yn y pentref.

Ystafell at ddefnydd yr ysgol:

Mae cyfle i ddatblygu un llawr o gapel y Babell fel gofod ychwanegol i'r ysgol a byddai'n hawdd creu cysylltiad corfforol rhwng y ddau safle. Mae llywodraethwyr yr Ysgol yn gefnogol i'r syniad o gael gofod ychwanegol i'r Ysgol.

Gwella ein cysylltiad band eang:

Un broblem sydd wedi ei adnabod yw diffyg cysylltiad band eang cyflym, sy'n hanfodol i lwyddiant economaidd a chymdeithasol. Mae'r pentref yn dibynnu mwy a mwy ar gysylltiad band eang cyflym, fyddai hefyd yn helpu i gefnogi'r swyddfeydd newydd.

Siop i'r pentref:

Mae diffyg siop o fewn y pentref wedi bod yn broblem ers i'r siop gau yn 2011. Ystyrir siop pentref yn wasanaeth hanfodol i'w gefnogi.